Pleser o'r mwyaf i ni yw rhannu â darllenwyr *Y Stamp* waith dau a ddaeth yn agos at y brig am Gadair Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd eleni. Am waith PINC (Osian Owen), a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth, dywedodd y beirniaid fod y 'dweud yn finiog mewn mannau a thyner dro arall', a bod yma fardd sydd yn 'gynganeddwr cadarn a chyson ei drawiad'. Daeth BANKSY (Matthew Tucker) hefyd yn agos at gael ei gynnwys yn y tri uchaf, gyda'r beirniaid yn rhoi canmoliaeth am gerdd 'gyfoes', 'drawiadol', sydd yn 'haeddu cael ei darllen'. Dyna'n barn ninnau hefyd - mwynhewch bob gair.

# CYWILYDD
## gan BANKSY

*Dere 'da fi fy machgen*
*ac mi roddaf i ti lais,*
*rhoddaf fy ngeiriau'n anrheg*
*i ti gael dweud dy stori.*

*

Fe welais di, y bore hwnnw,
yn chwarae tan gawod o lwch
y tu cefn i un o'r garejys
ar gyrion un o stadau'r dref.

Es atat, gan estyn fy ffôn fel gwn
o'm poced, ac mi dynnais dy lun.

Dim ond fi oedd yno
i gadw cwmni i ti y bore hwnnw,
ymlwybrodd dau gerddwr heibio
ond ufuddhau'n driw i'w cŵn yr oeddent
heb godi eu llygaid i dy gyfarch di,
ac mae pawb arall hefyd, erbyn hyn,
wedi troi eu cefnau arnat,
y dorf ond yn farworyn o atgof.

Oedais, gan sylwi fy mod i, fel pawb arall,
yn troi ymaith oddi wrthot
gan dy adael yn amddifad unwaith eto.

*

Fe welais di droeon cyn dod i dy weld:

fisoedd yn ôl,
bu dy wyneb yn boddi ffrydiau fy rhithfyd
pan ddest ti gyntaf i'n byd,
ac rwy'n cofio dy weld yn hawlio dy le
yng nghanol fy sgrin deledu
yn wystl i fflachiadau'r *paparazzi* o dorf,
wedi dy ddal fel cleren
yng ngwe'r criwiau newyddion,

fe hawliaist dy le hefyd ar sgriniau'r byd:
Llundain, Efrog Newydd, Tokyo,
buost yn byw'n gyfoethog am sbel fach
a'r byd i gyd yn dy nabod am wincied,
ond fe droeon nhw eu llygaid oddi wrthot
gan dy adael i encilio'n dy ôl
i fygdarth dy filltir sgwâr.

Ond, fe welaf fi tu hwnt i'r dagrau amryliw
a roddodd fod i ti yma
rhyw fin nos Nadoligaidd.

*

Ni wn beth yw dy stori di,

ond mi wn am gymaint sydd, fel ti,
yn rhygnu byw tu hwnt i lygaid y byd
mewn hen gilfach gefn
ar ryw 'stâd anghofiedig,
a thlodi'n gwthio'i hun dros bob stepen
ddrws;

yn byw o hyd yng nghysgod y Gwaith
sy'n chwydu'i wenwyn i enau'r plant,
a chewri'r tyrrau sy'n goruchwylio'r dref,
ac nid oes dianc rhag y bwystfil hwn
a weldiodd, ers degawdau,
fywydau'r tylwythau hyn ynghyd;

yn byw oddi ar friwsion gwlad
fel llwynogod ganol nos,
ac yn cynilo ceiniogau prin fel darnau aur
cyn gwario'u calonnau ar ddognau bywyd
a'u hel i waelodion eu bagiau plastig.

*

*Dere was, mi dynnaf di o'r maen*
*i ti gael byw tu hwnt i'r Gwaith,*
*i ti gael paentio olion dy draed*
*ar gynfas y byd.*

*Dere 'da fi yn awr fy machgen*
*ac mi roddaf i ti lais,*
*rhoddaf fy ngeiriau'n anrheg*
*i ti gael dweud dy stori,*

*a gyda'n gilydd,*
*fe daflwn ni hi i fynwes y cymylau*
*gan adael i'r gwynt ei chario ymaith*
*yng nghlydwch ei gôl.*

MATTHEW TUCKER



# CYWILYDD
# gan PINC

## Dyddiadur, 25.10.2018

*Fe ddaeth y gaeaf yn dynn ei afa'l*
*a mymryn llygedyn haf 'di gada'l …*
*… mae'r eira eisin mor oer â rasal,*
*yn lân o wyn, ac mae'r lôn yn anial.*
*Eto, daw'r nos ddiatal i rewi'r*
*sêr yn eu noethni yn rhesi grisial.*

*Tu mewn yn ymlid y byd a'i stido*
*yn sownd i ennyd, sŵn ni'n dau yno,*
*chwerthin fel llosgi eithin yn 'stwytho*
*ar y noson sy'n mynnu'n harneisio.*
*Dros win, hwnt i'r drws heno, mab a'i dad*
*yn herio'r eiliad bydd rhaid ffarwelio.*

*Dan gwrlid y sêr mae'r byd yn fferru*
*ac eira powdwr yn ei garpedu.*
*A gwin nos 'di hen g'nesu, pwy wyddai*
*heno y byddai'r glendid yn baeddu?*

## Angladd

Idiomau'n epidemig
yn waeth na'u gwenau chwithig
a mil llafnau'r dagrau dig …

Aeth Tachwedd yn llwch heddiw. Dyrnau dur
diwrnod oer sy'n edliw'r
nadu brwnt. A'i enaid briw
yn yfflon. Heb un affliw

o awydd byw, mynadd bod. O gylch bedd
mae'n glychu baw'n dannod
taeru'r rhain, fod *'troi y rhod,*
*yn hen arfer anorfod.'*

## Dyddiadur, 24.12.2018

Daw Rhagfyr i guro'n oer ei gerydd
a'i rew yn farmor yn hawlio'r hewlydd.
Neonau'n ludiog ar fin aelwydydd
a'u lliwiau heno sy'n stremps llawenydd.
Ag edafedd diwedd dydd yn greiau
rhubanau golau sy'n strobio'n gelwydd.

## Cân i Fab
## *Nos Galan 1997*

"Cwsg fy ngwas-i'n sŵn baledi'r
nos a'i hegni. Gwyrth y sugno'r

bodiau bychain wna ein deugain
ni ein hunain yn iau heno.

Er bod magnel, cloddio rwbel,
a sŵn rhyfel mewn sŵn rhofio,

fe ddoi dithau â sach wenau
i'w hau'n hadau. A chei glwydo

draw yng nghlydwch, byd llonyddwch
dynion heddwch. Rydw-i'n addo…"

## Wedyn

Trodd y gaea'n ha' cyn hir
yn fyrdwn ar arfordir
Llŷn. Ac i euro'r holl le
yr haul a ddaeth o rywle'n
rhy wyn. A'i belydrau o'n
rhy hy ar wyneb crïo.

Y tu hwnt i ha' antics
yn ei ffau yn snortio'i ffics
galar, mae un a'i luniau
unwaith eto'n godro'u gwae

## Ar Gefn Lluniau

### Y Rhyl, 2003

Ar lan dŵr a'i lond o hiraeth – ym Mae
fy mod, ces *'fagwraeth*
*ais-crîm-ar-rimyn-o-draeth'* …

…yn y Rhyl. Breichiau'r heulwen yn goglais,
ac ogla *'stwff oren'*
yr eli, a'r dŵr halen
yng nghybolfa'r hafa' hen.

### Addurno'r Goeden Nadolig, 2007

"Fesul darn, rho wisg arni. Dyro sêr
yn drysorau drosti.
Un bore cei ei brig hi
a golau'i sêr 'di gwelwi."

### Tachwedd 2018

Wynebu ddoe heb ei ddiwedd. A'r wên,
ar unwaith, un Tachwedd,
a holl luniau y llynedd
a fi fy hun yn ei fedd.

Llanast. Mae'n cadw'r lluniau
yn nrôr ei go'. Stori gau
ydi'r wên, â'i fyd heno'n
un gell lwyd o'i golli o.

Mae o'n codi a sbïo
yn y drych. Cyn mynd am dro …

## Gwydr

Y mae o'n taenu pob munud heno
yn denau denau, gan wadu yno
ei dwyll. Wrth ei ffrindiau o, mae o'n gwau
edau'r celwyddau, cyn cywilyddio.

Godra pob dafn o'r gwydryn, a'i alar
yn troi'n g'wilydd wedyn …
… am i haul cwrw melyn ddiflannu
mae'n blasu difaru 'mhob diferyn.

Daw rhwyg y melyn drwy gymylau nos
am nawr. Ond bydd oriau
yr hwyr yn mynnu parhau ambell waith,
i wella craith, mae'n well crio weithiau.

Er i'r haf fynnu brifo, yn rhigol
o regi a chofio
bydd yfory tra bo'r – pelydrau hyn
fel mymryn cudyn o'r haul yn cydio …

OSIAN OWEN